**Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD-15-02(min)**

## Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 13 Tachwedd |
| **Amser:** | 9.15am - 12.15pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

Yn bresennol

| | |
|---|---|
| *Aelodau* | |
| Glyn Davies, *Cadeirydd* | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Cynog Dafis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Mike German, *Gweinidog* | Dwyrain De Cymru |
| John Griffiths | Dwyrain Casnewydd |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |
| *Yn bresennol* | |
| Huw Brodie | Cyfarwyddwr, Yr Adran Amaethyddiaeth a Materion Gwledig |
| Tony Edwards | Y Prif Swyddog Milfeddygol |
| Rory O'Sullivan | Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd |
| Gareth Jones | Yr Is-adran Rheoli'r PAC |
| Mike Dunn | Yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio |
| Huw Jones | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Huw Davies | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |
| | |
| Dafydd Jarrett | NFU Cymru Wales |
| Rhian Nowell-Phillips | Undeb Amaethwyr Cymru |
| Sue Evans | CLA |

| | |
|---|---|
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau ac eilyddion**

1.1 Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n rhoi tystiolaeth i Gomisiwn Richard ar 5 Rhagfyr. Byddai'r mater yn cael ei gynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf, i'w drafod.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog: ARD 15-02(p1)**

***Rheoli cwota'r pysgodfeydd***

2.1 Esboniodd y Gweinidog y cefndir i'r cyngor gwyddonol mwyaf diweddar gan y Pwyllgor Ymgynghorol Ewropeaidd ar Reoli Pysgodfeydd ar gyfer Cyfanswm y Daliadau a Ganiateir y flwyddyn nesaf. Byddai'r penderfyniad terfynol ar beth y gellid ei ddal yn 2003 yn cael ei wneud yng Nghyngor Gweinidogion Amaethyddiaeth a Phgysgodfeydd yr UE ym Mrwsel ar 16 - 19 Rhagfyr.

2.2 Mewn trafodaeth, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- mae pysgota ar yr arfordir o gryn bwysigrwydd i Gymru. Y gobaith oedd y byddai diogelu sefyllfa economaidd y sector yn cael ei adlewyrchu yn safbwynt y Gweinidog ar reoli cwota;
- mae sefydlu pwyllgorau ymgynghorol rhanbarthol yn cael ei gefnogi yn y DU ac mae wrth wraidd diwygio'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin;
- bydd y graddau y mae fflydoedd yn symud o bysgota penfras i bysgota rhywogaethau sydd yn fwy perthnasol i Gymru yn allweddol i effaith rheoli cwota penfras ar Gymru.

2.3 Gofynnodd yr Aelodau fod y cyngor gwyddonol diweddaraf ar stociau pysgod yn cael ei ddosbarthu. Cytunodd y Gweinidog i ysgrifennu at John Griffiths yn amlinellu'r sefyllfa gyfredol o ran pysgota â rhwydi Lave.

***Corff cig coch newydd***

2.4 Mynegodd yr Aelodau eu pryder am drefn arfaethedig Bwrdd y corff newydd, yn enwedig yr angen i sicrhau digon o ddylanwad i Hyrwyddo Cig Oen a Chig Eidion Cymru (WLBP) a diddordebau eraill y cynhyrchwyr.

2.5 Mewn ymateb, nodwyd:

- mai cynnig ar gyfer Bwrdd o saith yw'r cynnig presennol - pump o aelodau craidd o'r Comisiwn Cig a Da Byw, WDA, NFU, FUW a WLBP a chynrychiolwr o'r sector prosesu a lladd-dai a Chadeirydd i'w ethol trwy gystadleuaeth agored. Yn ogystal, byddai'r Bwrdd yn rhydd i gyfethol hyd at dri aelod pellach petai'n dymuno gwneud hynny;
- y byddai'r Bwrdd yn rhydd i benderfynu ar ei arferion a'i weithdrefnau ei hun;
- y byddai buddiannau'r ffermwyr yn cael eu cynrychioli gan y ddau undeb ffermio a'r WLBP;
- bod cymeradwyaeth yr UE wedi cael ei rhoi i'r strwythur arfaethedig ac mae cais wedi'i wneud am ganiatâd cymorth y wladwriaeth. Ni fyddai'r corff newydd yn gallu gweithredu hyd nes bod hyn yn cael ei ddiogelu, a gobeithir y bydd hyn yn digwydd tua mis Ebrill 2003. Nodwyd y byddai'r system cymorth ariannol cyfredol i'r sector hefyd yn gorfod cael cymeradwyaeth yr UE petai am barhau.

***Tir Gofal***

2.6 Awgrymodd tystiolaeth o'r ceisiadau mwyaf diweddar nad oedd dileu'r angen am bum cais llwyddiannus oddi wrth pob ardal CCW wedi arwain at eithrio mathau penodol o gynefinoedd. Câi manylion dosbarthiad daearyddol y ceisiadau eu darparu yn Adroddiad nesaf y Gweinidog.

***Cynllun wrth-gefn Clwy'r Traed a'r Genau***

2.7 Cadarnhodd y Gweinidog nad oedd y cynlluniau wrth-gefn interim yn rhagdybio polisi brechu petai'r clwy yn ymddangos eto. Unwaith y byddai goblygiadau gwyddonol, masnachol a logistaidd yn cael eu datrys yn foddhaol, byddai cynlluniau wrth-gefn yn cael eu haddasu i adlewyrchu argymhelliad Ymchwiliad Follett ar gyfer defnyddio brechu cylchol. I'r perwyl hwn, nododd y Pwyllgor fod prawf diagnostig a fyddai'n gallu gwahaniaethu rhwng anifeiliaid sydd wedi eu brechu ac anifeiliaid eraill sydd â'r gwrth gyrff yn cael ei ddilysu ar hyn o bryd. Byddai hwn o ddefnydd allweddol petai brechiadau yn cael eu defnyddio i reoli clwy'r draed a'r genau yn y dyfodol.

2.8 Mynegodd y Cadeirydd bryder am y diffyg cynnydd sydd wedi'i wneud i bob golwg o ran trosglwyddo pwerau iechyd anifeiliaid, brechu a pherthynas â'r manwerthwyr ers clwy'r traed ar genau.

2.9 Cydnabu'r Gweinidog effaith y cyfyngiad symud 20 diwrnod ar ffermwyr Cymru. Yr oedd yn gobeithio y byddai modd adolygu'r drefn yng ngoleuni'r adroddiadau sydd ar ddod gan DEFRA ar agweddau milfeddygol a gwyddonol y clefyd ac effeithiolrwydd y cyfyngiadau mewnforio.

**Bwrdd Cyflogau Amaethyddol**

2.10 Cydnabu'r Aelodau bwysigrwydd gweithwyr fferm ar gyfer cynaliadwyedd cymunedau amaethyddol a'r rôl sy'n cael ei chwarae gan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn hyn o beth.

**Premiwm Blynyddol Defaid**

2.11 Bwriad y Gweinidog oedd y byddai taliadau ychwanegol y Premiwm Blynyddol Defaid a'r amlen genedlaethol yn cael eu talu cyn diwedd mis Tachwedd. Nid oedd yn bosibl gwarantu bod yr holl daliadau yn cael eu gwneud erbyn y dyddiad hwn am y byddai problemau yn codi gydag achosion unigol, fel sy'n anochel. Byddai talu cyn diwedd mis Tachwedd yn golygu bod cyfran uwch o gyfanswm y taliad blynyddol wedi cael ei wneud nag yn y blynyddoedd blaenorol. Y gobaith oedd y byddai taliadau Ardaloedd Llai Ffafriol yn dechrau cael eu talu ym mis Rhagfyr, yn unigol wrth i'r ffurflenni IACS gael eu dilysu. Bydd adroddiad yn rhoi manylion cynnydd ac esboniad o'r problemau a oedd wedi arwain at oedi gyda'r taliad yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf.

***Is-ddeddfwriaeth***

2.12 Mynegodd yr Aelodau bryder bod y ddau offeryn statudol a nodwyd gynt fel rhai y byddai'r Pwyllgor yn craffu arnynt yn fanwl bellach yn mynd i gael eu gwneud trwy'r Weithdrefn Weithredol. Cadarnhaodd y swyddogion y byddent yn cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor ar ffurf ddrafft mewn da bryd cyn cael eu gwneud.

**Pwyntiau Gweithredu**

Copi o'r cyngor gwyddonol diweddaraf ar stociau pysgod i'w ddosbarthu i aelodau'r Pwyllgor **- yr Ysgrifenyddiaeth**

Y Gweinidog i ysgrifennu at John Griffiths yn amlinellu'r sefyllfa gyfredol o ran pysgota â rhwydi lave - **y Gweinidog, yr Is-adran Polisi Amaethyddiaeth a Physgodfeydd.**

Bydd manylion dosbarthiad daearyddol ceisiadau Tir Gofal llwyddiannus yn cael eu darparu yn Adroddiad nesaf y Gweinidog **- y Gweinidog, yr Is-adran Datblygu Bwyd a Ffermio**

Adroddiad yn rhoi manylion ar gynnydd taliadau SAP ac esboniad o'r problemau a arweiniodd at oedi gyda'r taliadau i'w ddarparu yn y cyfarfod nesaf **- y Gweinidog, yr Is-adran Rheoli PAC**

**Eitem 3: Organebau sydd â'u geneteg wedi'i haddasu: ARD 15-02(p2)**

3.1 Cadarnhaodd y Gweinidog ei wrthwynebiad i dreialu cnydau a addaswyd yn enetig ar ffermydd yng Nghymru. Byddai manylion adroddiad Alesbury a barn y Pwyllgor Ymgynghorol ar Ryddhau i'r Amgylchedd a'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Fwydydd a Phrosesau Newydd ar Chardon LL yn cael eu darparu i aelodau'r Pwyllgor pan fyddent ar gael.

3.2 Roedd y rheoliadau drafft cyfredol ar ryddhau bwriadol yn cynnwys diffiniad o 'niweidio' sy'n adlewyrchu'r iaith a ddefnyddir yng Nghyfarwyddeb yr UE y maent yn deillio ohoni. Ni wnaeth y Gyfarwyddeb ei hun gynnwys diffiniad o'r fath. Bwriad cynnwys diffiniad mwy penodol oedd rhoi mwy o eglurdeb ac ni fyddai'n effeithio ar allu'r Cynulliad i gyfyngu ar ryddhau am y byddai'r Gyfarwyddeb bob amser yn cael blaenoriaeth gyfreithiol. Mae'r Gorchymyn cyfatebol yn Lloegr yn cynnwys

darpariaethau sy'n ymestyn i Gymru hefyd. Roedd y Cynulliad yn gallu gweithredu'r darpariaethau hyn yn wahanol, petai'n dymuno gwneud hynny.

3.3 Wrth gynnal y drafodaeth gyhoeddus ar faterion GM, pwysleisiodd yr Aelodau yr angen i egluro graddau a chyfyngiadau pwerau'r Cynulliad o ran masnacheiddio cnydau. Hefyd, teimlai'r Aelodau y dylai prynwyr gael mwy o wybodaeth am gynnwys GM bwydydd trwy wella'r labelu. Mewn ymateb i bryderon ynghylch ariannu a strwythur y drafodaeth gyhoeddus, cadarnhaodd y Gweinidog ei fod yn barod i ddarparu adnoddau i wella'r broses yng Nghymru er mwyn sicrhau ei bod yn drwyadl ac yn ystyrlon.

3.4 Byddai'r Gweinidog a'r Cadeirydd yn ystyried rôl y Pwyllgor ymhellach yn ystod y drafodaeth gyhoeddus.

**Pwynt Gweithredu**

Bydd manylion adroddiad ymchwiliad Chardon LL a chyngor gan ACRE ac ACNFP yn cael eu darparu i aelodau'r Pwyllgor pan fyddant ar gael - **y Gweinidog, yr Is-adran Cefn Gwlad**

Y Gweinidog a'r Cadeirydd i ystyried rôl y Pwyllgor ymhellach yn ystod y drafodaeth gyhoeddus - **y Gweinidog, y Cadeirydd, yr Is-adran Cefn Gwlad** , **a'r Ysgrifenyddiaeth**

**Eitem 4: Ymchwiliad y Pwyllgor i Ddyfodol Cynlluniau Amaeth-Amgylcheddol - tystiolaeth lafar gan NFU, FUW a CLA: ARD 15-02(p 3,4&5)**

4.1 Pwysleisiodd y tri corff yr angen am hyblygrwydd, a chyllid digonol a'r angen i leihau'r baich gweinyddol wrth gynllunio cynlluniau amaeth-amgylcheddol, a dymunoldeb cynyddu mynediad. Rhoddwyd cefnogaeth i gyflwyno cynlluniau ffermydd-cyfran ac ystyriaeth i feini prawf sgorio amgen, megis gwerth tirlun, er mwyn gallu ehangu mynediad.

4.2 Mewn trafodaeth, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- byddai dileu'r system pwyntiau trothwy a ddefnyddir yn Tir Gofal, gyda mwy o hyblygrwydd i swyddogion maes nodi ceisiadau llwyddiannus, yn helpu i gynyddu mynediad i'r cynlluniau amaeth-amgylcheddol. Byddai, er hynny, yn cynyddu'r disgwyliadau ymhlith ffermwyr ac yn rhoi pwysau ar adnoddau. Roedd angen gwaith pellach er mwyn gallu nodi i ba raddau y gellid tynnu adnoddau ychwanegol i mewn i Tir Gofal trwy ddefnyddio cronfeydd Ewropeaidd;
- roedd yr NFU yn cefnogi cyflwyno opsiwn i dynnu'n ôl o'r trefniadau ar ôl pum mlynedd yn hytrach na deng mlynedd er mwyn gallu cynyddu'r hyblygrwydd i ffermwyr;
- i leihau'r gwaith gweinyddol, gellid seilio cynllun ar y ffurflenni ICAS presennol. Derbyniwyd y byddai unrhyw gynllun yn gorfod darparu buddion amgylcheddol positif, ond yn aml, gellid cyflawni hyn trwy newidiadau gweddol fach i arferion ffermio;
- byddai angen cynnwys elfen o ailddosbarthu wrth ddefnyddio arian modwleiddio er mwyn gallu

cyflawni blaenoriaethau polisi.

**Eitem 5: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf: ARD 14-02(min)**

5.1 Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Hydref.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor - Hydref 2002**